Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**South Wales Supported Living**

**Leonard Cheshire Disability**
**Tŷ Cwm**
**Lôn Tŷ Cwm**
**Caerfyrddin**
**SA31 3GA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# South Wales Supported Living

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Mai 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Yn gyffredinol, mae tîm staff South Wales Supported Living yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi pobl fel y dymunant. Mae'r gweithwyr gofal yn canolbwyntio ar anghenion pob person yn unigol, er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Mae'r bobl a'u perthnasau yn frwdfrydig am y gefnogaeth maent yn ei derbyn, ac yn dweud bod eu gweithwyr gofal yn gofalu amdanynt yn dda. Mae'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch aelodau o'r staff, mae cyfathrebu da ar draws y gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth y maent yn ei gael gan South Wales Supported Living. Mae'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig ac yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob unigolyn: maent yn cefnogi pob person fel y dymunant, a dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod eu gweithwyr gofal yn garedig, yn ofalgar, yn barchus ac yn broffesiynol yn eu dulliau gweithredu. Dywedodd un person, gyda gwên fawr, *"They are all lovely,"* a dywedodd perthynas wrthym, *"We're so happy that X is happy."*

Mae cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion cymorth pob unigolyn yn fanwl. Mae cipluniau o bob unigolyn sy'n disgrifio eu diddordebau a'u hoff bethau, ynghyd â'r ffyrdd gorau o'u cefnogi. Buom yn trafod ffyrdd o ddangos bod y bobl yn cytuno â'u cynlluniau cymorth: ar hyn o bryd nid yw pawb yn llofnodi nac yn rhoi tystiolaeth o'u cofnodion gofal i ddynodi eu rhan yn y broses. Ond mae'r bobl a'u perthnasau yn dweud bod gweithwyr gofal yn siarad â nhw am y gofal maent yn ei dderbyn ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Mae hyn yn tawelu meddwl pawb bod eu hanghenion a'u barn bersonol yn cael eu deall.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn gwybod sut i wneud cwyn ac maent yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gwrando pe bai angen iddynt godi unrhyw faterion sy'n effeithio arnynt. Caiff preifatrwydd a gwybodaeth bersonol pob unigolyn eu cadw'n ddiogel ar bob adeg.

Mae'r rheolwr yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio. Caiff ambell ddogfen gofal ei chynhyrachu'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ac maent ar gael i'r bobl os dymunant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau ysgrifenedig clir ar gyfer y ffordd mae gweithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth i bobl. Mae'r darparwr yn ystyried ystod o wybodaeth er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion y bobl cyn rhoi eu cefnogaeth ar waith. Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan berthnasau yn ogystal â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol megis gweithwyr cymdeithasol, ynghyd â phob asesiad sy'n ymwneud â'r person. O hyn, bydd uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal i ddisgrifio trefniadau cymorth ac unrhyw ofynion penodol y bobl. Mae gan bob gweithiwr gofal fynediad i'r wybodaeth hon i sicrhau bod pob person bob amser yn cael y cymorth y cytunwyd arno. Er mwyn parhau i fod yn gyfredol, caiff yr holl gofnodion gofal eu hadolygu bob tri mis, yn amlach lle bynnag y bydd anghenion cymorth yn newid. Mae'r rheolwr wrthi'n diweddaru'r ffordd y caiff yr adolygiadau hyn eu dogfennu, er mwyn ei gwneud hi'n haws dangos tystiolaeth o gyfranogiad pobl yn y broses.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag haint cyn belled ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys monitro pob ymwelydd a'r defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol gan bob gweithiwr gofal. Mae'r bobl a'u perthnasau wedi cadarnhau bod arferion hylendid da drwy gydol eu hymweliadau.

I'r graddau y bo'n bosibl, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Caiff risgiau i iechyd a llesiant y bobl eu cofnodi'n glir a'u lleihau fel y gall y bobl aros mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Gwnaethant ddweud y byddent yn siarad â'r rheolwr yn y lle cyntaf, ond y byddent yn hyderus i gysylltu ag asiantaethau allanol, megis y tîm diogelu, pe baent o'r farn bod angen gwneud hynny.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant sy'n sicrhau canlyniadau da i bobl. Mae systemau gwirio syml ar waith, sydd wedi'u cynllunio i fonitro llesiant pob person, ynghyd ag ansawdd y cymorth a gânt. Mae'r tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol yn nodi unrhyw gamau sydd eu hangen i wella llesiant pobl mewn adroddiadau monitro sicrwydd ansawdd rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym, *“We always have enough time for people, to make sure we can do a good job.”* Mae perthnasau'r bobl yn canmol y gweithwyr gofal a'r tîm rheoli. Dywedodd un person, “*They are all lovely and caring. We couldn’t ask for more,”* a dywedodd un arall, "*They do a tremendous job, they really do.”*

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Gwneir gwiriadau cyn cyflogi cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.Mae'r rhaglen sefydlu staff yn cysylltu â ‘Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.’ Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi newid y ffordd y ceir tystiolaeth o hyfforddi'r staff, sydd wedi'i gwneud yn fwy anodd dangos bod gan yr holl gyflogeion y wybodaeth ddiweddaraf am eu hyfforddiant hanfodol. Fodd bynnag, mae'r rheolwr yn bwriadu trafod sut y gellir gwella hyn. Yn ogystal, dywed gweithwyr gofal eu bod yn cael yr holl hyfforddiant penodol sydd ei angen arnynt i gefnogi pobl fel y dylent.

Mae lefelau cadw staff wedi bod yn anodd ar adegau, ond mae grŵp craidd o staff sydd wedi bod gyda'r sefydliad am gyfnod sylweddol, sy'n rhoi sefydlogrwydd i'r gefnogaeth mae'r bobl yn derbyn bob dydd. Mae cofnodion goruchwylio gweithwyr yn dangos bod gweithwyr gofal yn cael y cyfle i drafod unrhyw faterion y dymunant eu codi mewn cyfarfodydd bob tri mis gyda'u rheolwr. Dywedodd pob gweithiwr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r cymorth a gânt gan dîm yr uwch staff. Dywedodd un gweithiwr, *“They are always around if you need anything. Very helpful too.”*

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

ddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi